ADRODDIAD BLYNYDDOL

2009

Ionawr 2010

1. Y BWRDD APELIADAU ARHOLIADAU

1.1 Adroddiad 2009

Dyma adroddiad blynyddol y Bwrdd Apeliadau Arholiadau (EAB) ar gyfer y flwyddyn 2009 sy'n trafod chwe apêl yn erbyn dyfarniadau a wnaed yn 2008. Mae'r EAB yn falch o dderbyn sylwadau ar yr adroddiad hwn ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil.

1.2 Aelodau'r EAB

Mae aelodau'r EAB yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd gan Weinidogion yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF).

Gan ddisgwyl y bydd yr awdurdod rheoleiddiol Ofqual yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr EAB, ac er mwyn cynorthwyo'r trawsnewid, cytunodd yr Adran i benodi dau ddirprwy gadeirydd ychwanegol i wasanaethu o fis Tachwedd 2009. Yn dilyn ymarferiad recriwtio a chyfweld eang fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol benodi Ms Caroline Blatchford a Mr David Snashall i'r Bwrdd. Mae'r ddau ddirprwy newydd wedi gwasanaethu fel panelwyr i'r EAB o'r blaen a bydd eu profiad yn ychwanegiad sylweddol at arbenigedd y Bwrdd.

1.3 Panelwyr yr EAB

Trwy gydol 2009 roedd 16 o banelwyr; ar gyfer pob apêl fe ddewiswyd dau o'r panelwyr i eistedd gydag un aelod o'r bwrdd. Yn ogystal â gwrando apeliadau, bydd panelwyr yn gweithredu fel arsyllwyr yn yr achosion hynny ble bydd yr EAB yn gofyn i gorff dyfarnu ailfarcio neu ailsafoni gwaith.

Ymddeolodd David Snashall, Alan Richardson, Jim Haines, Paul Ashdown, Elizabeth Preston, David Turton a Graham Soles; fe'u penodwyd gyntaf yn 2002. Mae'r Bwrdd yn dra diolchgar iddynt am y ffordd gydwybodol a diduedd y gwnaethon nhw ymdrin â phob apêl y buont yn ymhel â hi.

Yn sgil nifer isel yr apeliadau a wrandewir bob blwyddyn, penderfynodd y Bwrdd beidio â llenwi lle y panelwyr hyn sy'n ymddeol.

Fe ailbenodwyd y panelwyr hynny a benodwyd yn gyntaf yn 2003, am gyfnod o flwyddyn gan y Bwrdd.

Ym mis Tachwedd 2009, cynhaliodd yr EAB ei ddiwrnod blynyddol o hyfforddiant i'r panel. Cyfarfu'r aelodau, y panelwyr a staff y swyddfa i ystyried materion a gododd yn ystod gweithgareddau eleni a materion eraill a allai effeithio ar waith yr EAB yn y dyfodol.

Arbenigedd a phroffesiynoldeb y panelwyr yw un o brif gryfderau'r EAB a gwerthfawrogir cyfraniad a chefnogaeth y panelwyr yn fawr.

1.4 Cefnogaeth weinyddol ac ariannol

Mae'r EAB yn derbyn cefnogaeth weinyddol ac ariannol gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA). Mae'r EAB yn ddibynnol iawn ar rinweddau a phrofiad ei ddau swyddog sy'n delio â phob ymholiad i'r EAB ac yn cynnig gwybodaeth a chyngor i'r rhai sy'n rhan o unrhyw gam yn y broses ymholiadau ac apeliadau. Y maent hefyd yn rhoi cefnogaeth broffesiynol i'r Bwrdd a phanelwyr cyn, yn ystod ac ar ôl pob gwrandawiad. O fis Ebrill 2010, bydd cefnogaeth weinyddol ac ariannol yn cael eu darparu gan Ofqual.

Y mae adborth gan gyrff dyfarnu a chanolfannau ar ôl cwblhau'r broses apelio wedi cyfeirio'n gyson at y ffaith eu bod yn gwerthfawrogi ansawdd uchel y gefnogaeth a gawsant gan swyddogion yr EAB.

Yn ystod y flwyddyn, yn ystod cyfnod ei habsenoldeb mamolaeth, daeth Mr Gianni Bruggi i gymryd lle Ms Sam Debnam. Llongyfarchwyd Ms Debnam gan y Bwrdd ar enedigaeth ei merch.

Bydd aelodau'r EAB a'r panelwyr yn derbyn ffi am bob diwrnod o waith a thelir eu treuliau parod hefyd. Ar gyfer blwyddyn galendr 2009, cyfanswm cost hyn oedd £27,988.

1.5 Gwefan yr EAB

Mae gwefan yr EAB (www.theeab.org.uk) yn cynnwys copïau o'r holl wybodaeth a chyfarwyddyd sy'n cael eu cyhoeddi gan yr EAB. Yn ogystal, bydd y swyddfa yn anfon dogfennau at unrhyw un sy'n methu defnyddio'r wefan a gall hefyd ddarparu'r rhan fwyaf o ddogfennau yn Gymraeg.

2. GWAITH YR EAB YN 2009

2.1 Achosion yr EAB

2.1.1 Nifer yr apeliadau

Yn 2009, bu'r EAB yn gwrando chwe apêl ar arholiadau 2008: pedair ar TAG a dwy ar arholiadau TGAU. Roedd hyn yn ostyngiad yn nifer yr apeliadau, o wyth yn 2008. Derbyniwyd chwe chais arall i apelio. Mewn un achos, fe wrthodwyd y cais gan y cadeirydd oherwydd na fu apêl i'r corff dyfarnu yn gyntaf. Mewn tri o'r achosion, fe dynnwyd y cais yn ôl gan y ganolfan ar ôl iddo gael ei dderbyn gan yr EAB. Yn y ddau achos arall fe ddyfarnodd y cadeirydd fod y ceisiadau y tu allan i gylch gwaith yr EAB.

Bydd gwahoddiadau i arsyllu apeliadau yn cael eu hanfon at y rheoleiddwyr cymwysterau perthnasol ac at adrannau perthnasol y llywodraeth. Yn ogystal, bydd dyddiadau apeliadau sydd ar ddod yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr EAB ac mae croeso i aelodau'r cyhoedd arsyllu'r gwrandawiadau.

2.1.2 Amserlen

Mae cylch gwaith yr EAB yn mynnu ei fod yn cynnal gwrandawiadau o fewn dau fis i dderbyn cais. Yn 2009, gwrandawyd pob achos o fewn dau fis. Ym mhob achos, fe anfonwyd y llythyr manwl gyda'r penderfyniad terfynol o fewn 15 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad, fel sy'n ofynnol. O dderbyn y cais am apêl, yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau apêl oedd 62 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 58 diwrnod yn 2008.

Fe lwyddodd yr EAB i gwblhau pob gwrandawiad ar gyfer arholiadau 2008 erbyn diwedd Mai 2009.

2.1.3 Canlyniadau apeliadau

O'r chwe achos a wrandawyd yn 2009, caniatawyd 1 a gwrthodwyd 5.

	TAG	TGAU
Apeliadau a ganiatawyd	1	0
Apeliadau a wrthodwyd	3	2

Mae rhestr o achosion yn Atodiad 2. Mae crynodebau'r achosion a ddaeth i ben ar gael ar wefan yr EAB neu gan y swyddfa.

2.2 Cyfarfodydd gyda phobl â diddordeb

Ym mis Ebrill bu'r EAB yn cwrdd â'r Cydgyngor Cymwysterau (JCQ), sy'n gyfrwng i gyd-drefnu gwaith y cyrff dyfarnu. Yn ôl yr arfer, bu'r cyfarfod yn trafod materion a gododd o achosion yr EAB.

Mae cysylltiadau rheolaidd yr EAB â'r rheoleiddwyr a'r DCSF yn parhau'n ddefnyddiol a chynhyrchiol ac fe'u hystyrir yn gynyddol bwysig, o gofio'r newidiadau mawr sy'n digwydd yn y gyfundrefn arholiadau.

3. MATERION

Isod rhestrir rhai o'r materion a gododd mewn penderfyniadau ynghylch achosion a wrandawyd yn 2009. Maent yn codi'n bennaf o apeliadau unigol ond fe allent fod â goblygiadau ehangach ar gyfer manylebau pynciau a chyrff dyfarnu eraill.

Bydd JCQ (yn ogystal â'r rheoleiddwyr ac adrannau perthnasol y llywodraeth) yn derbyn copïau o lythyrau penderfyniadau manwl yr EAB, felly gall pob corff dyfarnu ddod yn ymwybodol o'i benderfyniadau a'i argymhellion. Yn ogystal, bydd yr EAB yn trafod materion sy'n codi yn y gwrandawiadau apêl mewn cyfarfodydd gyda JCQ ac, yn ôl yr angen, gyda'r rheoleiddwyr.

Weithiau, bydd yr EAB yn gwneud argymhellion i ganolfannau arholi ac i gyrff dyfarnu. Bydd materion ar gyfer canolfannau yn ymddangos ar wefan yr EAB.

3.1 Pwysigrwydd trywydd archwilio

Mewn rhai achosion, roedd y paneli yn pryderu am ddiffyg trywyddau archwilio llawn o ran penderfyniadau marcio. Atgoffwyd cyrff dyfarnu o bwysigrwydd cadw trywydd archwilio clir ac amlwg.

3.2 Arbenigwyr pwnc yng ngwrandawiadau'r EAB

Mae'r EAB yn credu bod gwrandawiadau ar eu hennill pan fydd arbenigwyr pwnc yn mynychu fel rhan o dimau'r cyrff dyfarnu ac mae'n dra diolchgar i'r cyrff dyfarnu am yr ymdrechion a wnaed i ddod ag arbenigwyr pwnc i wrandawiadau apêl.

4. CASGLIAD

Datblygiad pwysig i'r EAB oedd estyniad i'w gylch gwaith ar gyfer apeliadau yn codi o arholiadau 2009. Mae'r estyniad hwn yn caniatáu i'r EAB wrando ar apeliadau am gydrannau Prif Ddysgu a Phrosiect y cymhwyster Diploma.

Carai'r EAB ddiolch i'r cyrff dyfarnu am eu cydweithrediad parhaus ac am eu parodrwydd i weithredu'r argymhellion sy'n dilyn apeliadau.

Mae Deddf Seneddol *Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu* yn datgan y bydd Ofqual yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros y dull apeliadau terfynol a ddarparwyd hyd yn hyn gan yr EAB. Hyd at hynny mae'r EAB yn addo cynnal y safonau uchaf o ran cysylltiadau â rhanddeiliaid ac mae'n barod i roi cefnogaeth i'r corff sy'n ei olynu o ran cynnig ei wybodaeth a'i arbenigedd. Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen hefyd at gynorthwyo Ofqual i weithredu ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf ym mha ffordd bynnag yr ystyrir yn briodol.

Jeff Thompson	Mike Moran	Robin Trebilcock
Cadeirydd	Dirprwy Gadeirydd	Dirprwy Gadeirydd

Atodiad 1

Y BWRDD APELIADAU ARHOLIADAU

Aelodau'r bwrdd

Jeff Thompson	Cadeirydd
Robin Trebilcock	Dirprwy Gadeirydd
Mike Moran	Dirprwy Gadeirydd
Caroline Blatchford	Dirprwy Gadeirydd o fis Tachwedd 2009
David Snashall	Dirprwy Gadeirydd o fis Tachwedd 2009

Panelwyr

Paul Ashdown	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
Michael Batten	
Caroline Blatchford	Penodwyd yn aelod o'r Bwrdd
Paul Clark	
Andrew Collins	
Maggie Evans	
Mike Fletcher	
Jim Haines	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
Gerry Hayden	
Robert Nutter	
Liz Preston	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
Alan Richardson	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
David Snashall	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009 Penodwyd yn aelod o'r Bwrdd
Graham Soles	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
David Turton	Ymddeolodd ym mis Tachwedd 2009
Neil Watts	

Staff y swyddfa

Bryan Whittaker	Prif Swyddog
Sam Debnam	Swyddog Apeliadau (absenoldeb mamolaeth o fis Awst 2009)
Gianni Bruggi	Swyddog Apeliadau (o fis Medi 2009)

Manylion cyswllt

Yr EAB
83 Piccadilly
Llundain
W1J 8QA

www.theeab.org.uk

Ffôn: 020 7509 5995

E-bost: bryan.whittaker@theeab.org.uk

Atodiad 2

APELIADAU A WRANDAWYD AR ARHOLIADAU 2008

Ysgol Uwchradd Gymunedol Wayland	AQA TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Gwrthod
Ysgol Little Heath	OCR TAG Hanes	Caniatáu
Coleg Abbey	OCR TAG Ffiseg	Gwrthod
Coleg Carmel	OCR TAG Hanes	Gwrthod
Ysgol Ramadeg Gravesend	Edexcel TAG Technoleg Dylunio	Gwrthod
Ysgol Trefynwy	OCR TGAU Llên Saesneg	Gwrthod

Mae crynodebau'r achosion a ddaeth i ben ar gael ar wefan yr EAB, neu gan y swyddfa.